

technocamps



Cystadleuaeth Game of Codes 2020



Cymerwch ran mewn codio

Dychmygu, Codio, Enill!

Mae Technocamps yn cynnal ei bumed Cystadleuaeth Rhaglennu Genedlaethol ledled Cymru. Bydd y gystadleuaeth yn galluogi disgyblion sydd â diddordeb i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau, cyfathrebu a gwaith tîm gan wella eu gwybodaeth am raglennu cyfrifiadurol mewn ffordd hwyliog a dyfeisgar.

Yr her yw creu darn o feddalwedd gan ddefnyddio Cymdeithas, Iechyd a Lles fel y thema. Gallai enghreifftiau gynnwys robotiaid i atal hen bobl rhag teimlo'n unig, apiau i helpu pobl â dementia i gofio pethau, apiau i helpu pobl i gadw'n iach neu rywbeth sy'n ein helpu i achub y blaned fel meddalwedd i ddangos i ni sut i ailgylchu.

Rhaid bod gan eich meddalwedd ddyluniad gwreiddiol a allai fod ar ffurf gêm, gwefan, ap, cwis neu animeiddiad. Gellir defnyddio unrhyw iaith godio i greu'r feddalwedd e.e. Scratch, Python, Java, Visual Basic, App Inventor neu HTML ac ati a gallwch hefyd ddefnyddio'r Raspberry Pi neu'r BBC micro:Bits a allai fod gennych yn eich ysgol.

Yn ystod y cyfnod cyn y gystadleuaeth, gall grwpiau yn eich dosbarth ysgol, disgyblion o'ch ysgol gynradd leol neu'ch Technoclub cyfan gyfrannu at ddatblygiad eich meddalwedd. Fodd bynnag, ar gyfer rownd derfynol y gystadleuaeth, bydd angen i chi enwebu tîm o ddau i chwech o bobl o'r ysgol a allai fynychu'r gystadleuaeth olaf a diwrnod y wobwr. Mae'n bwysig bod hwn yn grŵp gallu cymysg. Yn anffodus, dim ond ceisiadau tîm y gellir eu derbyn i'r gystadleuaeth a rhaid i bob cais tîm ddynodi athro cyswllt (neu arweinydd clwb) a chael cefnogaeth eu hysgol, cyn cystadl

Cofiwch wrth greu eich meddalwedd, mae'n hanfodol ystyried y canlynol:

- *A yw'ch meddalwedd yn arloesol? A fydd pobl eisiau ei ddefnyddio? Allwch chi gyrchu meddalwedd debyg ar y farchnad?*
- *Beth sy'n gwneud eich meddalwedd yn wahanol? Pam fyddai rhywun eisiau defnyddio'ch meddalwedd?*
- *At bwy mae'ch meddalwedd wedi'i hanelu a sut y byddwch chi'n eu targedu? Er enghraifft, os yw'ch gêm neu feddalwedd wedi'i thargedu at ferched yn eu harddegau, sut y byddwch chi'n sicrhau eu bod eisiau defnyddio'r feddalwedd?*
- *Gwneud i'ch meddalwedd edrych yn hwyl a bod yn greadigol!*

Mae cofnodion tîm yn cynnwys poster A1 (gellir defnyddio PowerPoint neu MS Publisher ond rhaid cadw'r poster fel ffeil PDF). Rhaid i'r poster gynnwys adlewyrchiad o waith tîm.

Y pethau i'w hystyried wrth lunio'ch poster yw:

- *Enw'r prosiect.*
- *Nod y prosiect - Ar gyfer pwy mae'r prosiect?*
- *Pwy sydd yn eich tîm?*
- *Sut gwnaethoch chi greu'r feddalwedd (e.e. pa iaith wnaethoch chi ei defnyddio)?*
- *Cynhwyswch dystiolaeth o'ch meddalwedd e.e. sgrinluniau, ffeil feddalwedd neu ffotograffau o'r cynnyrch terfynol.*
- *Dyluniad y prosiect (Sut olwg oedd arno cyn i chi ddechrau codio? A oedd gennych unrhyw gymeriadau? Sut wnaethoch chi benderfynu beth oedd y prosiect yn mynd i'w gyflawni?)*
- *Myfyrio (Sut wnaethoch chi wneud penderfyniadau fel tîm? Trafodwch gyfrifoldeb tîm pob aelod o'ch tîm. Pa gamau wnaethoch chi eu cymryd i wneud y feddalwedd? A wnaethoch*

*chi unrhyw newidiadau, os felly, pa newidiadau wnaethoch chi?
Beth wnaethoch chi ddysgu wrth greu'r prosiect terfynol?)*

Sut i Fynd i Mewn

Rhaid llenwi a chyflwyno ffurflen gais tîm (ar dudalen nesaf y daflen wybodaeth hon) ynghyd â'r cofnod.

Rhaid cyflwyno pob cais trwy e-bost i gameofcodes@technocamps.com gyda'r llinell pwnc "Technocamps Game of Codes Competition" erbyn 4pm fan bellaf ar **ddydd Gwener 28ain Chwefror 2020**.

Bydd timau ar y rhestr fer yn cael eu hysbysu **ddydd Llun 2 Mawrth 2020**.

Gwahoddir y tимоedd ar y rhestr fer i fynychu'r diwrnod gwobrwyo'r gystadleuaeth yn Yr Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg ym Mhrifysgol Caerdydd ar **ddydd Mercher 18ed o Fawrth 2020**, lle bydd gan bob tîm y cyfle i arddangos ei ymgais i academyddion a beirniaid gwadd. Bydd yr ymgeisiadau gorau yn derbyn gwobrau a bydd pob tîm yn derbyn Tystysgrif Presenoldeb.

Cysylltwch

Am unrhyw gyngor, cwestiynau neu gefnogaeth gyda'r gystadleuaeth Game of Codes Technocamps, cysylltwch â

gameofcodes@technocamps.com

www.technocamps.com

technocamps

Follow us on:



Ffurflen Ymgais Tîm

| Manylion Eich Tîm Ysgol | |
|--|--|
| Enw'r Tîm: | |
| Aelodau'r Tîm (2 – 6): | <ol style="list-style-type: none"> 1. 2. 3. 4. 5. 6. |
| Enw a Chyfeiriad Ysgol: | |
| Grŵp Oedran: | |
| Athro Cyswllt: (Enw a Chyfeiriad e-bost) | |
| Eich Prosiect | |
| Enw'r Prosiect: | |
| Nod y Prosiect: | |
| Disgrifiad byr o'r Prosiect (300 gair ar y mwyaf): | |